

Dyfodol Canolfannau EBC – Trefeca



Coleg Trefeca

Yr wythnos hon, fel ymateb i'r newyddion fod Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi dod i benderfyniad ar ddyfodol eu canolfannau preswyl yn y Bala ac yn Nhrefeca, cawn glywed ymateb personol Cadeirydd Ymddiriedolwyr Trefeca. Bu'r Parch. Trefor Lewis yn warden yno ynghyd â'i wraig, Miriam, am gyfnod. Mae Canolfan Trefeca ynghlwm â tharddiad Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac o bwys yn hanes Cristnogaeth yng Nghymru, oherwydd mai yno oedd cartref un o arweinwyr amlycaf y mudiad Methodistiaidd yn y ddeunawfed ganrif, sef Howell Harris. Cawn air hefyd gan y Parch. Jenny Garrard wrth iddi hi werthfawrogi'r hanes diweddar sydd i'r ganolfan fel Canolfan Gwaith Lleyg yn yr eglwys.



a gweithwyr EBC ac eraill i dreulio cyfnod o seibiant haeddiannol, tawel, o sw'n y byd:

Wel dyma hyfryd fan
i droi at Dduw,
lle gall credadun gwan
gael nerth i fyw.

Gobaith y Panel yw y bydd ei benderfyniad yn cael ei wireddu erbyn diwedd 2022. Yn y cyfamser, bydd y Ganolfan ar gael i'w llogi gan grwpiau eglwysig, unigolion, boed am benwythnos neu ddyddiau yn yr wythnos, i aros yno i fyfyrwyr, a hyderaf y byddwn yn anrhydeddu unrhyw drefniant a wneir ar gyfer y dyfodol. Gall pob un sydd â diddordeb gael rhagor o fanylion drwy ffonio 01874 711423.

Beth bynnag fydd canlyniad trafodaethau'r Ysgrifennydd Cyffredinol gyda phartneriaethau eraill, yr wyf o'r farn ei bod yn gwbl angenrheidiol 'sicrhau defnydd o'r lle gan y Cyfundeb yn ôl y galw'.

Cefnogir argymhelliad y Panel i gadw mewn cof lesiant y staff, yn benodol Mair a Richard a staff y gegin, sydd wedi cynnal y gwaith ar hyd y blynyddoedd.

*Trefor Lewis
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr*

Pwysigrwydd Trefeca

Ers y 1970au, mae Trefeca wedi chwarae rhan bwysig, nid yn unig ym mywyd Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ond hefyd ym mywyd eglwysig, grwpiau ac unigolion eraill. Datblygodd y diweddar Barch John Tudor, y Parch Arthur Meirion Roberts, Ronwy Rogers a wardeniaid olynol Drefeca fel ein

Canolfan Gwaith Lleyg – wedi ymrwymo i feithrin a datblygu ffydd POB UN o bobl Dduw (blaenoriaid ac aelodau) ac ehangu ein gweledigaeth o waith Duw ar gyfer ei Eglwys heddiw.

Mae Trefeca wedi rhoi cyfleoedd inni eistedd wrth draed diwinyddion sy'n adnabyddus yn rhyngwladol (e.e. Kosuke Koyamo, yn wreiddiol o Japan), i ddysgu oddi wrth arweinwyr a fu'n rhan o Fudiad Canolfannau Gwaith Lleyg ar draws Ewrop, i gael ein haddoliad Pasg dan arweiniad Cristion alltud o Uganda, neu brofi encil ac astudiaethau Beiblaidd dan arweiniad pobl fel y Canon Saunders Davies a'r Parch. Ddr John Morgans. Mae yna bobl sy'n dal i bregethu heddiw oherwydd yr hyn ddysgon nhw gan y Parch. Elfed ap Nefydd Roberts ar benwythnosau'r Pregethwyr Lleyg; ac mae cynulleidfaoedd fel rhai Park End yng Nghaerdydd yn cydnabod bod eu ffydd, eu tystiolaeth a'u cymdeithas wedi'u cryfhau ar benwythnosau i ffrwrdd gyda'i gilydd. Yn dilyn cau'r Coleg Diwinyddol, mae Trefeca hefyd wedi darparu man ymgynnull deirgwaith y flwyddyn i'n myfyrwyr sydd bellach ar wasgar mewn colegau a phrifysgolion eraill.

Roeddwn yn gwerthfawrogi'n fawr y ffordd yr oedd rhaglen Trefeca yn herio'r enwad. Heriodd ein hundod ag eglwysig eraill (gan gynnal llawer o gyfarfodydd cynnar Cytûn), ein herio i ymgysylltu â diwydiant, â pholisïau'r llywodraeth, â'n cymunedau lleol, ac i ddod o hyd i bartneriaid y gallem weithio efo nhw yn y byd. Bu – ac y mae – ei gyfleusterau preswyl da hefyd yn golygu y gallai gynnig lle adferol, iachusol, i'r rhai ag anghenion ac anabledau, gan gynnwys y rhai y tu hwnt i'n ffiniau Cymreig (e.e. pobl ifanc Catholig a Phrotestannaidd o Iwerddon yn ystod y trafferthion, teuluoedd o Grenfell Tower yn fwy diweddar).

Mae llawer o'n haelodau eglwysig yn dysgu sgiliau newydd a ffordd newydd o fod yn eglwysig ers Covid, ac rwy'n dal i gredu bod Trefeca mewn sefyllfa unigryw i'n helpu yn hynny o beth.

Jenny Garrard

'Gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad'

Deunyddiau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol



Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2022

Gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad

We Saw His Star in the East

Week of Prayer for Christian Unity 2022

18-25 Ionawr

www.ctbi.org.uk/weekofprayer



Yn ystod yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, fe'n gwahoddir i fyfyrion ar y Gair bob dydd gyda Christnogion y Dwyrain Canol sydd wedi paratoi'r deunyddiau hyn. Gwahoddir ni hefyd i weithredu ac i gydgyssylltu efo Cristnogion o draddodiadau eraill o'n cwmpas gyda'r bwriad o oleuo gyda'n gilydd dros Grist fel sêr yn y nos. Gallwch lawrlwytho'r myfyrdodau i gyd yn y Gymraeg ac iethoedd brodorol eraill y Deyrnas Unedig ar wefan [Eglwysy Ynghyd](#) ym Mhrydain ac Iwerddon.

DIWRNOD 1

"Gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad"

(Mathew 2:2)

Cyfod ni a thyn ni at dy oleuni perffaith

Darlleniadau

Salm 139:1-10 – Bydd dy ddeheulaw yn fy nghynnal.

2 Timotheus 1:7-10 – Y gras hwn ... a amlygwyd yn awr drwy ymddangosiad ein Gwaredwr, Crist Iesu.

Myfyrdod

Yn y byd bregus ac ansicr hwn, rydym yn chwilio am oleuni. Rydym yn chwilio am y daioni o fewn ein hunain, ond yn aml rydym yn cael ein llethu cymaint gan ein gwendid fel bod ein gobaith yn pylu. Mae ein hyder yn gorffwys yn Nuw, sydd, yn ei ddoethineb, yn ein galluogi i obeithio am ei drugaredd – ond cawn ein synnu pan ddaw ei drugaredd ar ffurf ddynol: Crist yw'r goleuni yn ein plith! 'Ysbryd sy'n

peri nerth a chariad' yw rhodd Duw i ni. Nid drwy ddbynnu ar ein nerth a'n gallu ein hunain y cawn ein harwain ar y ffordd i'r goleuni perffaith hwn, ond yn hytrach drwy arweiniad Ysbryd Glân Duw.

Mae goleuni'r seren o'r dwyrain yn treiddio i ddyfnderoedd y tywyllwch sy'n ein gwahanu oddi wrth ein gilydd. Mae'r seren yn parhau i ddisgleirio a newid wyneb hanes. Ar hyd yr oesoedd mae'r byd wedi dod i adnabod, drwy fywydau dilynwyr Crist, y gobaith sy'n cael ei ysbrydoli gan yr Ysbryd Glân. Ac mae'r Crist Atgyfodedig yn parhau i ddisgleirio, fel llusern i'n harwain ni oll i'r golau perffaith hwn, gan oresgyn y tywyllwch sy'n ein gosod ar wahân.

Mae'r awydd i oresgyn tywyllwch arwahanwydd yn ein gorfodi i weddio a gweithio dros undod Cristnogol.

Gweddï

Greawdwr goleuni,

goleua ein llwybr wrth oleuni Crist, sy'n mynd o'n blaen ac yn ein harwain.

Bydded yntau'n llusern i'n pererindod.

Goleua ni a thriga ynom ni.

Tywys ni i ganfod preseb yn ein calonnau lle mae goleuni mawr yn parhau i ddisgleirio.

Diolchwn i ti am rodd y Seren honno nad yw'n pylu, Iesu, ein Harglwydd a'n Gwaredwr.

Iachâ ein rhaniadau a thyn ni'n agosach at y Goleuni fel y gallwn ganfod ein hundod ynddo ef.

Amen.

Pennill Emyn

Peraidd ganodd sêr y bore

ar enedigaeth Brenin nef;

doethion a bugeiliaid hwythau

deithient i'w addoli ef:

gwerthfawr drysor,

yn y preseb Iesu gaed.

Morgan Rhys (1716-79)

Cwestiynau

Wrth fyfyrion ynghylch y flwyddyn a aeth heibio:

- byd-eang: Beth allai swyddogaeth yr Eglwys fod wrth gyhoeddi newyddion da'r Efyngyl mewn byd lle mae cymaint o anghyfiawnder?
- lleol: Ble ydych chi wedi gweld arwyddion o obaith yn eich cymuned, yn enwedig yn ystod cyfnod o bandemig?
- personol: Sut ydych chi wedi ceisio'r 'goleuni' yng nghanol y tywyllwch?

Ewch a Gwnewch (gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Byd-eang: Ewch i wefan [Embrace the Middle East](#) a gweld pa gamau y gallwch eu cymryd i gydsefyll â Christnogion y Dwyrain Canol.

Lleol: Trefnwch wynos wrth olau kannwyll ar ran eglwysy eich ardal fel gweithred o undod ar gyfer yr wythnos hon. Nid oes raid i'r wynos fod yn fater o bawb yn dod ynghyd yn un lle, ond gallai olygu bod pob eglwys yn annog ei haelodau i osod kannwyll mewn ffenestr ar ddiwrnod ac amser penodol.

Personol: Syllwch ar y sêr yr wythnos hon. Edrychwch ar seren lachar ac oedwch mewn gweddï ac addoliad gerbron Creawdwr goleuni. Nid oes raid i chi fynd allan – gallech ymweld â phlanetariwm ar-lein.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 23 Ionawr, am 7:30yh (ailddarlliedir y Sul canlynol am 11:30yb)

Yr wythnos yma byddwn yn dathlu cariad. Bydd Lisa ar Ynys Llanddwyn ym Môn yn dysgu mwy am hanes rhyfeddol Santes Dwynwen yng nghwmni Rhiannon Ifans. Cawn berfformiad bendigedig gan Glesni Fflur o alaw'r gân Americanaidd 'The Rose' a geiriau cyfarwydd 'Calon Lân'.

Dyma gopi o gylchlythyr Dechrau Canu, Dechrau Canmol am fis Ionawr – <https://express.adobe.com/page/S5Yt6uFtEoJzW/>

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 23 Ionawr, 7:30yb a 4:30yp

Euros Rhys Evans sy'n cyflwyno cyfres am aelodau o'r

un teulu sydd wedi gwneud cyfraniad i'n hemynyddiaeth. David Charles a'i fab, David Charles, sydd dan sylw heddiw.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 23 Ionawr, 12:00yp

Gwasanaeth yng ngofal Dr Hefin Jones, Caerdydd.

O'r Llwyfan

Yr Argyfwng Tai a Her yr Adeiladau

Un o bynciau llosg ein cyfnod yw'r argyfwng tai sydd mewn gwirionedd wedi bodoli ers blynnyddoedd maith. Hanfod y broblem yw prinder tai fforddiadwy, cynnydd yn yr ail gartrefi yn ein hardaloedd gwledig, yn ogystal â phoblogrwydd ffenomenon yr 'Airbnb'. Mae'r holl ffactorau hyn, ynghyd â rhai eraill, yn cyfrannu tuag at amddifadu pobl o brynu a sicrhau cartref.

Y llynedd cynhaliwyd mwy nag un rali gan Gymdeithas yr Iaith er mwyn tynnu sylw at y sefyllfa. Yn ystod yr haf daeth tua mil o bobl at ei gilydd yn Nhryweryn, a chynhaliwyd rali arall ar risiau'r Senedd ym mis Tachwedd er mwyn pwysu ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar frys. At hynny, roedd y modd y câi capeli eu prynu er mwyn eu troi yn dai neu dai gwyliau wedi denu sylw'r cyfryngau yn sgil gwerthiant Capel Bethania, Pistyll, Pen Llŷn. Gobaith y bobl leol oedd diogelu'r adeilad a'i ddefnyddio fel canolfan gymunedol. Cynhaliwyd ymgyrch i brynu'r capel a llwyddodd y trigolion i godi bron i £30,000. Ond, er gwaethaf pob ymdrech, gwerthwyd y capel mewn ocsiwn am £257,000.

Ym mis Rhagfyr cyhoeddodd Cristnogaeth 21 [ddatganiad](#) mewn perthynas â'r argyfwng gan nodi eu dymuniad i weld yr enwadau crefyddol, y Cymdeithasau Tai a'r Awdurdodau Lleol yn chwarae eu rhan i gryfhau'r cyswllt rhyngddynt hwy a mudiadau eraill, megis Housing Justice Cymru, er mwyn ystyried sut y gall yr adeiladau gael eu defnyddio i ddarparu cartrefi, ynghyd â manau addoli addas ar ein cyfer.



Yn y cyd-destun hwn, priodol felly yr rhannu ychydig o'r hyn sy'n digwydd o fewn Undeb Bedyddwyr Cymru pan fydd achosion yn dod i ben a'r adeiladau yn cael eu gwerthu.

Ond, i ddechrau, mae'n bwysig cofio mai cam anodd iawn yw penderfynu cau achos gan fod hynny nid yn unig yn destun tristwch ond yn fater hynod sensitif hefyd. Fel arfer, criw bach o ffyddloniaid sydd yn gorfod wynebu realiti'r dyfodol a phleidleisio dros ddirwyn yr achos i ben. Yn aml iawn fe fydd gan yr aelodau sydd yn weddill atgofion o oedfaon arbennig a digwyddiadau teuluol a gynhaliwyd yn y capel, a hwythau wedi addoli yno ers blynnyddoedd lawer. At hynny, gall y profiad o gau achos ymdeimlo fel methiant. Yn ddi-os, mae cau unrhyw achos yn brofiad caled ond mae'n hollbwysig hefyd dwyn i gof

mewn ysbryd o ddiolchgarwch a llawenydd y gwaith da a chadarnhaol a gyflawnwyd gan aelodau ffyddlon dros flynyddoedd lawer yn enw'r Arglwydd Iesu.

Beth felly sydd yn digwydd pan fydd Eglwys Fedyddiedig yn penderfynu cau'r drysau am y tro olaf? Yn y lle cyntaf, fe fydd yn rhaid gweithredu yn unol â'r cyfarwyddiadau a geir yng ngweithredoedd yr Eglwys. Mae gan bob achos unigol ddogfennau unigryw a fydd yn gosod allan yn union beth ddylai ddigwydd i'r adeilad os yw'r achos yn dod i ben. Fel arfer, mae hyn yn golygu gwerthu'r adeilad gyda'r elw yn cael ei gyfeirio at y gronfa a nodir yn y gweithredoedd, sef yr hyn a elwir y derbynnydd eithaf. Gall y derbynnydd eithaf amrywio o achos i achos. Er enghraifft, un o'r derbynwyr eithaf sy'n ymddangos yn rhai o weithredoedd ein heglwys yw'r 'Particular Baptist Fund', sydd â'i bencadlys yn Lloegr. Prin iawn yw'r arian sydd yn cael ei ailfuddsoddi yn eglwys Undeb Bedyddwyr Cymru os mai'r PBF yw'r derbynnydd eithaf! Ambell waith fe fydd Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, yn cael ei enwi ac ar brydiau eraill un o gronfeydd Undeb Bedyddwyr Cymru neu Gorfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru.

Unwaith y cadarnheir cynnwys y gweithredoedd, gellir comisiynu adroddiad statudol gan syrfêwr priodol cyn cychwyn y broses farchnata. Yn arferol mae pob adeilad yn gwerthu o fewn ychydig fisoedd a phrin yw'r adeiladau sydd ar y farchnad am fwy na blwyddyn. Os mai un o gronfeydd yr Undeb neu'r Gorfforaeth a nodir fel y derbynnydd eithaf, gellir buddsoddi elw arian y gwerthiant yng ngwaith yr Undeb ar gyfer y dyfodol.

Dyma'r drefn, yn fras, y gweithredwyd arni yn y gorffennol, ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn ystyried ai dyma'r strategaeth orau ar gyfer y dyfodol. Nid oes gennym ffynhonnell ddiidwedd o arian wrth gefn ac mae angen cynllunio yn synhwyrol gan gofio mai amcan Undeb Bedyddwyr Cymru yw diogelu parhad y fydd Gristnogol.

O ganlyniad rydym newydd ddechrau ar y gwaith o fabwysiadu proses o asesu pob achos sydd yn cau o safbwyntiau gwahanol. Er enghraifft, rhoddir ystyriaeth i botensial cenhadol neu fasnachol pob adeilad gan holi a fyddai modd cadw'r adeilad er mwyn ei ddefnyddio fel canolfan genhadol yn y dyfodol neu ddatblygu'r safle yn fasnachol er mwyn sicrhau llif o incwm ar gyfer gwaith yr Undeb. Yn naturiol, golyga hyn ein bod yn sicrhau cyngor proffesiynol priodol.

Tra mae ystyriaethau cenhadol a masnachol yn allweddol, rydym hefyd yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd hanesyddol rhai o'r adeiladau. I'r perwyl hwn cafwyd cyfarfod gydag Addoldai Cymru, sef elusen a sefydlwyd yn 1999 gan Cadw a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mewn ymateb i'r modd yr oedd addoldai Cymru yn cau ar raddfa ddychrynlyd. Mae'r elusen

hon wedi llunio rhestr o holl gapeli Cymru sydd yn meddu ar arwyddocâd hanesyddol neu bensaernïol, ac yn hynny o beth mae'n bwysig cofio am gyfoeth ein treftadaeth a diogelu'r enghreifftiau pwysicaf oll. Hefyd, ac yn unol â neges Cristnogaeth 21, byddwn yn cyfarfod yn fuan gyda'r mudiad Housing Justice Cymru fel cam cyntaf wrth ystyried y posibiladau o ddatblygu eiddo ar gyfer darparu tai cymdeithasol lle bo hyn yn bosib ac yn briodol.

Er bod y sefyllfa o ddirwyn achosion i ben yn hynod drist, mae'r ystyriaethau sydd yn dilyn yng nghyd-destun yr adeiladau yn amrywiol ac yn llawn posibiladau creadigol a gobeithiol ar gyfer y dyfodol.

Judith Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol
Undeb Bedyddwyr Cymru

Cristion

Bellach, mae rhifyn Ionawr / Chwefror o'r cylchgrawn *Cristion* ar gael yn eich siopau lleol.

Y tro hwn, thema'r rifyn yw Cariad, a thrwy gyfraniadau amrywiol, cawn ein tywys i wahanol gyfeiriadau wrth iddynt ymateb i'r thema. A hithau'n dal i fod yn dymor y plygeiniau, edrych ar thema cariad yn y carolau plygain a wna'r Dr Rhiannon Ifans, tra mae Sandra Storch a Nerys Griffiths yn edrych ar y thema o gyfeiriad rhai o hanesion yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Ym mis Ionawr, cawn ein harwain ar y 25ain i gofio am nawddsant cariadon Cymru, sef Dwynwen, ac adlewyrchir hynny yn yr erthygl 'Ffydd ar Daith'. Yna, ar 27 Ionawr, cawn ein sobri wrth nodi diwrnod coffáu'r Holocaust, ac ymateb i hynny mae'r erthygl gan y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor.



Cipolwg yn unig yw hyn ar yr amrywiaeth a'r cyfoeth a geir yn y rhifyn presennol. Ac, wrth gwrs, peidiwch ag anghofio am y fideo sy'n cyd-fynd â'n colofn '[Gair o'r Galon](#)' ar ein gwefan bob tro - y tro hwn, yng nghwmni'r Parchedig Eric Greene a Mrs Haf Greene. Mynnwch gopi un ai drwy eich siop leol neu drwy'r [wefan](#), a gobeithio y cewch flas a bendith wrth ei ddarllen.




Y Silff Lyfrau



Cyn imi ddarllen y gyfrol sydd dan sylw y tro hwn, mae'n rhaid imi gyfaddef nad oeddwn wedi sylweddoli bod carfan reit niferus o ysgolheigion yn canolbwyntio ar esbonio llyfrau Beiblaidd o safbwynt gweithredu di-drais. Ysgolhaig o Awstralia yw Chris Armitage a dewisodd drafod Epistol Cyntaf loan o'r safbwynt hwn. Teitl ei gyfrol yw *Atonement and Ethics in 1 John: A Peacemaking Hermeneutic*, ac fe'i cyhoeddwyd yng nghyfres y 'Library of New Testament Studies' (rhif 654) gan T. & T. Clark, Llundain, 2021 (978-0-5677-0074-2; £85; xi + 225 tt.).

Ar un olwg gellid dweud bod yr epistol hwn yn destun anaddas ar gyfer ymdriniaeth fel hon gan fod ymraniaidau oddi mewn i'r Eglwys Fore'n cael lle mor ganolog ynddo. Ymddengys mai bwriad yr awdur yw gwrthwynebu'n chwyrn ddaliadau'r rhai a ymadawodd yn ddiweddar o'r gymuned Gristnogol. Fe'u beirnedir am eu tuedd i wadu realiti dyndod Crist ac am eu difaterwch ynglŷn â materion moesol, ac fe ddefnyddia iaith gref wrth eu cystwyo gan eu galw'n Anghristiau. Dadleua awdur y gyfrol dan sylw mai creu awyrgylch heddychlon yw prif fwriad loan, ac felly mae'n ymwrthod â dulliau sy'n ennyn casineb a chynnen wrth ddadlau yn eu herbyn gan bwysleisio 'cyfamod newydd' cariad yn sylfaen i'w hymddygiad tuag atynt. Arwain at lofruddiaeth a wna casineb yn y diwedd, fel y dengys yr unig gyfeiriad clir at yr Hen Destament yn yr epistol, sef yr un at Cain, llofrudd cyntaf y Beibl (3.12).

Wrth ystyried a yw'n bosibl cyfiawnhau dehongliad heddychlon ohono, canolbwyntia'r awdur ar drafod pum gair allweddol ynddo er mwyn deall ei brif neges. Yn gyntaf, rhoddir sylw manwl i air sy'n ymddangos ddwywaith, yn 2.2 a 4.10 – gair y rhoddwyd peth sylw iddo ychydig fisoedd yn ôl yn 'Y Silff Lyfrau', gair y bu llawer o ddadlau yn ei gylch. Fe'i cyfieithwyd â'r gair 'iawn' ym Meibl William Morgan ac yn 'aberth cymod' yn fersiwn diwygiedig *Y Beibl Cymraeg Newydd*. Rhydd Armitage adolygiad manwl o safbwyntiau cryn un ar bymtheg o ysgolheigion blaenllaw, yn ymestyn o Westcott ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at rai cwbl gyfoes, ynglŷn â'r modd priodol i'w gyfieithu. Rhennir y rhan fwyaf ohonynt yn ddwy garfan, ac yn y fan yma credaf fod y cyfieithiadau Saesneg yn arddangos y gwahaniaethau'n fwy eglur: *propitiation* a geir yn yr *Authorized Version* (1611), ond *expiation* a gynigiwyd gan C. H. Dodd mewn erthygl ddylanwadol yn nhridegau'r ugeinfed ganrif, ac fe'i dilynwyd



gan nifer fawr o esbonwyr. Adlewyrchir hyn mewn cyfieithiadau modern megis y *New Revised Standard Version*, lle ceir 'the atoning sacrifice'. Mae'r term *propitiation* yn cyfleu'r cysyniad o foddhau llid Duw, tra bo'r gair *expiation* yn disgrifio gweithred sy'n delio'n uniongyrchol â phechod pobl. Yn ôl Armitage, mae ymchwil manwl i'r defnydd o'r gair Groeg *hilasmos*, sef yr enw a ymddengys ddwywaith yn Epistol Cyntaf loan, ynghyd â ffurfiau cytras ohono, yn cefnogi'r ail ystyr, sef *expiation*. Felly, daw i'r casgliad ei fod yn ategu mynegiant yr epistol o weithred aberthol Crist, a ysgogwyd gan Dduw cariadus.

Yna try at ddau air sy'n disgrifio'r hyn a wnaeth Cain: y ferf 'lladd' a'r enw 'llofrudd'

(3.12 a 15). Ar ddechrau ei gyfrol, roedd Armitage wedi honni mai dehongliad y Ffrancwr Americanaidd René Girard o'r modd yr amlygodd y llofruddiaeth gyntaf yn Genesis 4 yr elfen gystadleuol gynhenid mewn pobl sy'n arwain at drais a llofruddiaeth wrth i ddau gystadlu am yr un gwrthrych. Â Armitage ymlaen i ddangos bod traddodiadau diweddarach Iddewiaeth wedi portreadu Cain yn archdeip drygioni ei hun ac yn tanlinellu'r peryglon sy'n codi yn sgil casineb ac ymraniaidau oddi mewn i'r gymuned loannaidd.

Ac yna, yn olaf, rhoddir sylw manwl i'r gorchmynion i garu yn llyfrau Lefiticus a Deuteronomium wrth ddangos eu dylanwad ar y modd y dylid dehongli'r ferf 'caru', sy'n rhoi inni'r enw *agape* yn y Groeg, ac ystyr llawn y gair 'brawd'. Dangosir y dylid eu dehongli yn y cyd-destun loannaidd ehangach i gyfleu ehangder cariad Duw mewn gwrthgyferbyniad â chariad sydd wedi'i gyfyngu'n unig i aelodau'r gymuned ffydd.

Mae toeth o wybodaeth yn y gyfrol hon am y geiriau allweddol yn yr epistol a drafodir, a chyflwynir safbwynt yr awdur yn glir, er iddo ar brydiau dueddu i fod braidd yn ailadroddus. Y gwyn fwyaf sydd gennyf yn erbyn y cyhoeddiad hwn yw'r llu gwallau wrth argraffu geiriau Groeg a Hebraeg na ddylai ddigwydd i'r graddau hyn mewn cyfres mor safonol. Eto, ni ddylai hynny amharu'n ormodol ar y budd y gall y darlennydd cyffredin ei dderbyn o'i astudio.

John Tudno Williams

Gweddî'r Arglwydd Cyfres o 5 Astudiaeth Feiblaidd ar zoom

Nos Lun am 7yh – Ionawr 31; Chwefror 14, 28; Mawrth 14, 28
Dydd Gwener am 1:30yp – Chwefror 4, 18; Mawrth 4, 18; Ebrill 1

Trefnir gan Is-bwyllgor y Chwiorydd

Am fanylion pellach, cysylltwch ag
Eirian Roberts:

eirian.roberts@ebcpcw.cymru

01678 520065



Cartref y Bedyddwyr, Glyn Nest

Cartref Cristnogol sy'n eiddo i'r Bedyddwyr yw Cartref Glyn Nest. Mae'n cynnig llety preswyl i'r henoed, ac wedi ei leoli yn nhref Castellnewydd Emlyn. Grŵp o wragedd mewn eglwysi lleol a gafodd y weledigaeth o sefydlu'r cartref, a chefnogwyd eu dyhead gan Fudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Gwireddwyd eu gweledigaeth pan agorwyd Cartref Glyn Nest yn 1970, ac fe gwblhawyd estyniadau sylweddol i'r adeilad yn 1992 a 2009.

Yn y cartref mae 30 o welyau cofrestredig, gan gynnwys gwelyau i'r henoed sy'n dioddef o ddementia ac sy'n fregus eu meddwl. Mae'r cartref yn croesawu pobl dros 65 mlwydd oed sy'n dymuno derbyn gofal preswyl. Bu cartref cyffelyb hefyd ym Mangor, sef Bryn Llifton, ond mae hwnnw bellach wedi cau. Y Parch Irfon Roberts, Aberteifi, yw Cadeirydd y cartref, ac mae nifer o garedigion y Bedyddwyr yn gweithredu fel gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr. Bydd eglwysi'r Bedyddwyr yn cynnal casgliadau yn rheolaidd er mwyn cefnogi gwaith y cartref pwysig hwn. Yn ddiweddar, penodwyd y Parch Siân Elin Thomas yn gaplan ar y cartref, a dymunwn yn dda iddi yn y weinidogaeth bwysig hon – swydd y mae'n ei chyflawni yn ychwanegol at ei gwaith fel gweinidog ar ofalaeth eglwysig. [A.D. Gol]

Does dim amheuaeth nad ydym yn edrych ymlaen at weld y goleuni ar ôl adeg tywyll Cofid 19. Rydym wedi clywed ar y newyddion am y prinder staff sydd yn yr ysbtyai oherwydd yr amrywiolyn Omicron sydd wedi lledu trwy'r wlad. Ond, mae cartrefi gofal wedi cael eu taro yn yr un modd.

Rydw i'n siarad gyda chi fel Caplan Cartref Gofal Bedyddiedig Glyn Nest yng Nghastellnewydd Emlyn, ac yn ysgrifennu'r erthygl yma wrth eistedd ac edrych, gyda thristwch, ar y seddau gwag yn y stafell fwyta a'r stafell fyw sydd fel arfer yn llawn bwrlwm a sŵn. Mae hyn oherwydd bod pob un o'r preswylwr yn gysurus yn eu hystafelloedd gwely yn hunanynysu oherwydd ambell achos o'r feirws rhwystredig yma. Does neb yn sâl iawn, diolch byth, ac mae hynny'n bennaf oherwydd y brechlyn, dwi'n siŵr.

Y rheswm pennaf dros ysgrifennu'r adroddiad yma yw er mwyn rhoi chydig o olau ar yr arwyr tawel sydd wedi gweithio'n ddiflino yn ein cartrefi gofal dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn aml, cyn y pandemig, fe wnes i glywed llawer yn dweud, 'Fyddwn i ddim yn gallu gweithio mewn cartref i hen bobl'. A bod yn onest, gallaf gynnwys fy hunan yn hynny. Mae'r staff sy'n gweithio mewn lleoliad o'r fath – y glanhawyr, cogyddion, gofawyr, gweinyddwyr a rheolwyr – yn gwneud swydd ddiddiolch yn aml.

Bob dydd mae'r staff yn llawn brwdfrydedd a charedigrwydd tuag at y preswylwyr ac at ei gilydd. Maen nhw'n gweithio oriau hir i sicrhau bod yna ddigon o staff i gynnig y gofal gorau. Ac mae'r edmygedd sydd gennyf tuag atynt yn tyfu bob dydd. Alla i ddim ond cymeradwyo'u dyfalbarhad wrth iddynt geisio delio â'r sefyllfa.

Rydw i'n llawn hyder ffydd fod diwedd i'r pandemig yma yn agos iawn. Ar ôl i ni fynd yn ôl i ryw fath o normalrwydd, gobeithio y byddwn yn cofio am yr aberth mae'r staff yn y sector lechyd a Gofal wedi'i wneud i sicrhau bod trigolion yn y cartrefi gofal yn ddiogel ac yn hapus: aberthu amser gyda'u teuluoedd wrth weithio oriau hir, ond hefyd aberthu eu hiechyd corfforol a meddyliol. Rydw i'n rhyfeddu bob dydd at y filltir ychwanegol y maent yn fodlon ei cherdded. Ac yn diolch i Dduw am holl staff cartrefi gofal dros ein gwlad. Ond, wrth gwrs, rydw i'n diolch yn arbennig am y staff yn ein cartref bach ni yng Nghastellnewydd Emlyn. Jayne, a'r staff cyfan yng Nglyn Nest, rydych chi wir yn arwyr!

Siân Elin Thomas



Y Parch Sian Elin Thomas yn ymweld â'r cartref, wedi'i gwisgo yn ei dillad PPE i gadw'r deiliaid yn ddiogel.



Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Fel deunydd ar gyfer myfyrdod personol ac astudiaeth grŵp, byddwn yn parhau hyd y Grawys â'r myfyrdodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

11 Rhoi theori ar waith

Heddwch a phroblem dioddefaint

Darlenn: Rhufeiniaid 8:18–30

'Yr wyf fi'n cyfrif nad yw dioddefiadau'r presennol i'w cymharu â'r gogoniant sydd ar gael ei ddatguddio i ni' (adn. 18).

Beth sydd yna i beidio â'i hoffi am heddwch? Mae'n debyg i'r dywediad Americanaidd: 'Motherhood and apple pie', sef bod ei ddaioni uwch pob cwestiynu a beirniadaeth. Ond os oes yna un mater sy'n achosi i bobl fod yn amheus am heddwch Duw, yna problem dioddefaint yw honno. Sut ydym ni'n cael addewidion aruchel y Beibl i gydorwedd efo ymyrraeth greulon i fywyd bob dydd y dioddefaint erchyll y mae llawer o bobl yn gorfod ei oddef ar brydiau, gan gynnwys y rheiny sydd wedi gosod eu hymddiriedaeth yn Nuw?

Yn wir, mae trywydd y stori yr ydym yn ei dilyn yn llai nag addawol. O'r creu a'r cwmpac ac ymlaen drwy stori pobl Dduw, fe welwn gri am heddwch o genhedlaeth i genhedlaeth. Hyd yn oed gyda geni Iesu, Tywysog Tangnefedd, fe ddaeth dioddefaint wrth i Herod ladd yr holl hogiau bach o dan ddwyflwydd oed ym Methlehem a'r cyffiniau (Mathew 2:16). Fe dderbyniodd Mair addewid y byddai ei chalon yn cael ei thorri; fe garcharwyd a dienyddiwyd Ioan Fedyddiwr; ac fe boenyddiwyd Iesu cyn ei groeshoelio. Fe gafodd Steffan ei ferthyru, ac fe ddienyddiwyd Pedr, Paul ac eraill hefyd oherwydd eu ffydd. Hyd heddiw, mae dynion a merched yn marw oherwydd eu ffydd, a hynny yn aml dan law poenydwyr sadistaidd. Fe fyddai'r addewid yma o heddwch yn ymddangos fel petai'n anodd dal gafael ynddi ar y gorau ac ar ei gwaethaf yn ddim namyn rhith. A oes unrhyw ryfeddod i bobl sôn dros y blynyddoedd am roi Duw o flaen ei well¹ er mwyn ateb y cyhuddiad o fod yn dawel, yn absennol, yn ddiotal yn wyneb dioddefaint?

Os ydym i fentro ymateb, yna'r peth cyntaf i'w ddweud ydy bod Duw yng Nghrist wedi dod yn y cnawd oherwydd yr union dioddefaint yma. Mae'r Rhufeiniaid 8:18–30 yn tynnu ein sylw at 'dair ochenaidd': mae'r holl greadigaeth yn ochneidio (adn. 22); ochneidiwn ninnau ynom ein hunain (adn. 23); ac ar yr adegau hynny pan na allwn hyd yn oed weddio oherwydd gwendid ein ffydd, mae'r Ysbryd Glân yn ymbil drosom ag ochneidiau y tu hwnt i eiriau (adn. 26). Gwelwn yr ochneidio hyn o'n cwmpas ym mhob man: dyn yn 'codi cledd i ladd ei

frawd', trychinebau naturiol, damweiniau enbyd, teroristiaid anllad a feirysau gwyllt – yr oll yn cyfrannu at fwydlen ddyddiol o boen sy'n ymylu ar anobaith.

Felly, cyn inni daflu carreg i gyfeiriad Duw gyda'r ddedfryd ymhlyg yn y geiriau, 'Pam nad wyt ti'n gwneud rhywbeth?', fe ddylem ni ymrafael â'r ffaith fod Duw, yn wir, wedi gwneud rhywbeth. Yng ngenedigaeth, bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu, mae Duw wedi newid tirwedd dioddefaint dynol am byth. Fe welwn mewn ychydig sut mae wedi newid, ond wrth y groes y cafodd yr ergyd farwol ei tharo yn erbyn y drygioni sy'n ein poeni yn y byd. 'Ef ei hun a ddygodd ein pechodau yn ei gorff ar y groesbren' (1 Pedr 2:24), ac wrth wneud hynny fe ymddengys bod Duw wedi gweithredu'n derfynol er mwyn ailosod y diffyg balans personol a moesol sy'n tarfu ar y byd, fel y platiau hynny'n troelli y soniwyd amdany'n nhw ynghynt.

Sut mae hynny'n berthnasol i 'ochneidiau'r greadigaeth' – y daeargryn sy'n llyncu bywyd, y nam trydanol sy'n rhoi'r fflach cychwynnol i dân mewn bloc o fflatiau, neu ymlediad rhyw glefyd angheuol – dydw i ddim yn gwybod yn iawn, ond hwyrach bod cydnabod yr ansefydlogrwydd moesol a chreadigaethol yn y byd yn gadael inni obeithio am ddydd pan fydd daear adferedig Datguddiad 22:1 yn realiti. Hyd hynny, yr ydym yn byw yn y byd hwn o boen. Mae'n dal yn fyd lle gallwn dyfu'n fwy dynol ynddo; mae'n rhoi inni'r mwynderau a'r peryglon sy'n rhan cynhenid o'n bywyd bob dydd. Rydym yn fodlon mentro byw, oherwydd wrth wneud hynny yr ydym yn cynyddu mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o'n byd ac ohonom ein hunain.

Ond mae mentro yn cerdded ochr yn ochr â thrasiedi, ac mae trasiedi yn boenus. Fyddai yna ddim poen pe na baem ni'n caru nac yn malio, ond yr ydym yn caru ac yn malio, felly yr ydym yn galaru ac yn teimlo poen difesur. Beth a wna Duw? Ein problem yw na allwn ni ddychmygu byd arall, byd lle bydd diwedd ar boen.

Yn y cyfamser gallwn ddewis caru a bod yn addfwyn, yn garedig a thrugarog. Gallwn hefyd ddewis casáu a bod yn dreisiol, yn galed ac yn oer tuag at eraill. Gallwn ddewis aros adref wrth y tân ac osgoi posibilrwydd damweiniau, er y byddem yn marw o ddiflastod a chael ein hamddifadu o fwynhau byd rhyfeddol Duw. Os dygir ein dewisiadau oddi arnom, nid ydym yn creu byd o heddwch; rydym yn creu byd

o robotiaid, byd amddifad o fodau dynol. Ein rhyddid ewylls yw'r hyn a'n gwna ni'n ddynol ac a wna ein haddoliad o Dduw yn aberth gwirioneddol o fawl.

Popeth yn ddrwg cyn belled! Mae'n swnio fel petawn i'n dweud, 'Stopiwcw gwyno. Mae bywyd yn dda.' Dydy o ddim yn dda – wel, nid bob amser ac nid i bawb. Ond dydyn ni ddim wedi ymgodymu efo'r atgyfodiad eto. Cawsom gipolwg eisoes ar y byd newydd y sonnir amdano yn y Beibl, y byd na allwn ei ddychmygu, yn atgyfodiad Iesu. Dywed yr apostol Paul wrth Gristnigion Corinth:

Ond y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffwrth y rhai sydd wedi huno. Gan mai trwy dyn y daeth marwolaeth, trwy ddyn hefyd y daeth atgyfodiad y meirw. Oherwydd fel y mae pawb yn marw yn Adda, felly hefyd y gwneir pawb yn fyw yng Nghrist. (1 Corinthiaid 15:20–22)

Rai blynyddoedd yn ôl, fe aeth gŵr ifanc, 18 oed, yn yr eglwys lle roeddwn i wedi bod yn fugail, dramor am flwyddyn o genhadaeth. Yn ystod yr amser hwnnw dramor, fe dyfodd mewn ffydd o fod yn rhywun yr oedden ni wedi bod yn fodlon mentro'i anfon i fod yn rhywun yr oedd Duw wedi gwneud pethau mawr iddo. Roedd yr eglwys yn edrych ymlaen yn eiddgar i'w dderbyn yn ôl. Dychmygwch deimladau ei deulu a'r eglwys pan gyrhaeddodd y newydd ei fod wedi ei ladd mewn damwain ar y ffordd i'r maes awyrennau i hedfan adref!

Bûm mewn gofid mawr wrth feddwl am hyn gan ddod i'r casgliad yn y diwedd mai dim ond yr atgyfodiad oedd yn cynnig y cysur yr oedden ni'n awchu amdano. Fe gymerodd hi lawer o amser inni dderbyn y casgliad hwnnw, hyd yn oed. Yn aml, byddwn am i gamau gael eu hunioni nawr, ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid inni bwysu ein bywyddau yng nghlorian tragwyddoldeb.

Mae diwinyddiaeth o'r nefoedd yn ein helpu i sylweddoli y bydd ein dioddefiadau'n cael eu dad-wneud ryw ddydd, yn union fel y cafodd marw Crist ei ddad-wneud. Dyma'r newyddion da yr ydym yn eu cyhoeddi. Fe fydd rhai'n gwneud sbort ohonom ar brydiau, oherwydd 'y gair am y groes, ffolineb yw i'r rhai sydd ar lwybr colledigaeth, ond i ni sydd ar lwybr iachawdwriaeth, gallu Duw ydyw' (1 Corinthiaid 1:18). Ond dyna pam mae Paul yn dweud yn ein darlleniad heddiw, 'nad yw dioddefiadau'r presennol i'w cymharu â'r gogoniant sydd ar gael ei ddatguddio i ni' (adn. 18).

Gall hynny fod yn anodd ei gredu, ond dydy hynny ddim yn tynnu dim oddi ar ei wirionedd.

[1] Ymadrodd rhyfygus yn y Gymraeg, ond ymgais i gyfieithu 'God in the Dock'.



O Gefn Gwlad



Pennawd anaddas?

Rwyf yn aml wrth ysgrifennu neu ddarllen ysgrifau yn meddwl mai ar y diwedd y dylai'r pennawd neu'r teitl ymddangos gan mai wedi'r darllen y sylweddolir yn llawn ei arwyddocâd. Dyma wneud hyn y tro hwn felly, gan y gellid tybio ei fod efallai'n bennawd cwbl anaddas i'n sefyllfa fel y mae hi.

Mi ellir dadlau fod y calendr Gregoraidd yn gwbl anffodus i ni yn hemisffer y gogledd gan fod dechrau blwyddyn newydd, sydd i fod yn rhywbeth i'w ddathlu ac i lawenhau o'i blegid, yn digwydd pan fydd y dydd ar ei fyrraf, y nos yn hir ac oer, a hyd yn oed oriau'r goleuni yn gallu bod yn rhai tywyll ar y naw. Lawn i wledydd hemisffer y de, gallant ddathlu mewn golau llachar a heulwen gynnes.

Ond fe allai'r tywydd a'r tywyllwch adlewyrchu'r hyn yw dechrau blwyddyn i lawer – i'r afiach, i'r unig, i'r tlawd, gan mai parhau gyda diflastod, gyda phroblemau, a gydag anobaith y flwyddyn cynt y byddan nhw. Mae'n dda cael y cyfle i ddymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' wrth bawb a welwn, ond yn anffodus nid yw hynny yn unig yn sicrhau mai felly y bydd.

Beth wnawn ni gyda'r flwyddyn a aeth heibio? Gwelodd amryw o'r rhai yr wyf fi yn eu hadnabod brofedigaethau mawr; gwelsom ar ein sgriniau dynged miloedd o bobloedd y byd; buom yn dystion ac yn ddiodefwr i effaith y pandemig ar ein bywydau. A ddylem ei hanfon, fel y gwnaeth Crwys gynt gydag un o flynyddoedd yr Ail Ryfel Byd – ei hanfon 'I fynwent ddifffiaith yr amseroedd drwg'? Neu a ddylem gau ein llygaid i'r pethau drwg i gyd a chymryd arnom nad ydyn nhw'n bod? Fel y darllenais mewn cyfrol arbennig yn ddiweddar: 'What, after all, are eyelids for if not to exclude the unwelcome?'

Ie, cau ein llygaid: hawdd i rai pethau, ond nid i bopeth chwaith. Ac a oes gen i, sy'n honni cred, yr hawl i ymdrochi mewn môr o besmistiaeth ac anobaith, y besmistiaeth sy'n nodweddu'r erthygl hon hyd yn hyn?



Llun: Iestyn Hughes

'Daeth yn amser i'r adar ganu'

Mae gan yr awdures y dyfynnais o'i chyfrol uchod ddyfyniad arall sy'n sôn am y dyddiau yn dilyn diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Brawddeg yn crynhoi teimladau a gobeithion miliynau: 'There was for us this feeling that "the time of the singing of birds" had come.'

Y mae yng ngwraidd bod y rhan fwyaf ohonom ryw obaith o hyd fod amser gwell i ddod, fod yr haul ar fin ymddangos dros

y gorwel, y daw cyfnod pob aflwydd i ben ac mai ymlaen y mae Canaan. Ac felly, onid mewn gobaith y dylem wynebu'r flwyddyn newydd, yn enwedig y ni sy'n honni fod gennym gred sy'n ein cynnal? Fe welsom wedi'r cyfan arwriaeth llaweroedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwasanaeth hunanaberthol lluoedd i leddfu briwiau dynolryw, ac ymdrechion glew diflino i ddatrys problemau newyn ac anghyfiawnder. Nid du yw'r darlun cyfan o bell ffordd.

Felly dyma, ar y diwedd, ddefnyddio brawddeg gwbl addas, y frawddeg o Ganiad Solomon, un o frawddegau mwyaf gobeithiol a llawen y Beibl cyfan yn destun i'r erthygl hon, ac yn ddatganiad ar ddechrau blwyddyn newydd arall yn ein hanes – 'Daeth yn amser i'r adar ganu.'

* *All Stracheys are Cousins: a memoir*, gan Amabel Williams-Ellis (Weidenfeld & Nicolson)

Elfyn Pritchard

Sylw i dri Methodist gan yr Eglwys Anglicanaidd a'r Llyfrgell Genedlaethol

Sadwrn, 22 Ionawr 2022, am 10.00am

'Gofal Ein Gwinllan': cyfres o seminarau rithwir yn trafod cyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i iaith, hanes a diwylliant Cymru. Yn y seminar hon bydd Dr Eryn M. White yn siarad ar y testun 'Dafydd Jones, Llan-gan a'r "Offeiriad Ddarfu Gefnu"' a Dr John Aaron ar y testun 'Thomas Charles o'r Bala a Thomas Jones, Creaton'. Digwyddiad Cymraeg gyda chyfieithu ar y pryd. Dyma'r ddolen ar gyfer cofrestru (yn rhad ac am ddim): <https://bit.ly/3GKNr1l> I wyllo seminarau blaenorol yn y gyfres, ewch i: <https://www.churchinwales.org.uk/cy/about-us/welsh-language>

Mawrth, 25 Ionawr 2022, am 5.00pm

'Mary Jones: Eicon Ryngwladol'. Sgwrs rithwir gan yr Athro E. Wyn James dan nawdd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn gysylltiedig â'r arddangosfa 'Beibl i Bawb' sydd yn y Llyfrgell ar hyn o bryd. Digwyddiad Cymraeg gyda chyfieithu ar y pryd. Dyma'r ddolen ar gyfer cofrestru (yn rhad ac am ddim): <https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/t-lqllne>

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Y Gair, Cyhoeddi'r Gair a Gwireddu'r Gair

Y Gair

Darlleniad – Salm 19

Gweddi

Arglwydd ein lôr, mor hawddgar wyt, mor ogoneddus ydwynt yn ysblander dy sancteiddrwydd. Addolwn di. Cydnabyddwn dy nerth a'th allu, dy frenhiniaeth a'th hawl arnom. Defaid dy borfa ydym ni. Bugail da, trugarog a hirymaros ydwynt ti tuag atom. Cyffeswn ein haml ffaeledau, ein gwrthryfel i'th erbyn, a bod yn well gennym drengi mewn gwyl o hanner gwir a hanner celwydd na byw yn nisgleirdeb dy oleuni perffaith di. Maddau i ni ein ffolineb. Llefara air i oleuo ein tywyllwch a'n bywhau. Tyrd atom drachefn drwy dy Ysbryd Glân. Amen.

Emyn 4 'Mae'r nefoedd faith uwchben'

Cyhoeddi'r Gair

Darlleniad – Nehemeia 8:1-10

Nid yn y golofn hon y mae ceisio ateb cwestiynau ysgolheigion am ddyddio gweinidogaethau Esra a Nehemeia. Digon i'n dibenion ni yw nodi bod oddeutu canrif ers y caniatâd i ddychwelyd o'r gaethglud ym Mabilon i Jerwsalem. Roedd cyflwr y boblogaeth, wedi iddynt ddychwelyd i ddinas o adfeilion, yn parhau i fod yn fregus. Yn ychwanegol at hyn roedd yr iaith yr ysgrifennwyd eu hysgrythurau ynddi bellach yn iaith oedd yn gynyddol ddieithr i'r werin bobl. Gwelwn yn llyfr Esra, er enghraifft, fod rhannau o'i lyfr wedi eu hysgrifennu, nid mewn Hebraeg, ond mewn Aramaeg, yn iaith y bobl. Wrth i ni graffu ar Nehemeia 8:8 gwelwn, ar y lefel fwyaf arwynebol, fod angen i'r rhai 'oeddent yn darllen o lyfr cyfraith Dduw ... ei gyfieithu a'i esbonio fel bod pawb yn deall y darlleniad'. Yn syml, doedd y bobl ddim yn deall y geiriau mwyach.

Ond, ar lefel lawer dyfnach, cawn ein tywys i sylwi ar egwyddor hanfodol o'n ffydd. Nid ffydd a ddarganfyddir mewn teimladau cyfriniol neu ddisgyblaeth lem yw ffydd y Beibl. Drwy ei Air mae Duw Israel, Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yn creu, yn cynnal ac yn datguddio'i hun. Caiff y Gair ei fynegi mewn geiriau, mewn testun y medrwn ei ystyried, a'i drafod, ei ddehongli a'i ddeall. Ar yr ochr arall, er bod ein ffydd yn ffydd sydd â thestun yn sylfaenol iddi, nid testun mewn iaith arbennig sy'n rhaid ei meistrolu er mwyn dirnad ei ddatguddiad mohono chwaith.

Mae'n destun, yn neges, y mae modd ei gyfieithu a'i drosi i ieithoedd eraill. Hyd yn oed cyn dyfodiad Iesu Grist i'r byd roedd ysgolheigion Iddewig wedi ymdrechu i drosi eu testunau craidd i'r iaith Roeg. Ac ar hyd canrifoedd cred ymdrechwyd i gyfieithu'r Beibl i ieithoedd lle roedd teithi meddwl ieithoedd gwreiddiol y Beibl, Hebraeg a Groeg, yn ddieithr iddynt. Hyd heddiw mae mudiadau fel Cymdeithas y Beibl yn parhau i drosi'r Ysgrhythurau fel bod 'Beibl i bawb o bobl y byd'.

Yn yr adnod hefyd gwelwn ddisgrifiad o briod waith pob pregethwr sy'n dringo i bulpud. Ein cyfrifoldeb a'n braint yw 'cyfieithu' drwy 'esbonio' perthnasedd y gair, heb lurgunio'r neges, er mwyn galluogi pobl sy'n byw mewn diwylliannau gwahanol i'r awduron gwreiddiol ganfod gobaith a bywyd a goleuni.

Emyn 49 'Diolch i ti, yr hollalluog Dduw'

Gwireddu'r Gair

Darlleniad – Luc 4:14-21

Yn nechrau ei efengyl mae Luc wedi cyfeirio i ddarllenwyr at liaws o dystion i Iesu. Daeth angel at Fair, ac at fugeiliaid gerllaw Bethlehem; addolodd y doethion o'r Dwyrain ef. Cyhoeddodd Simeon ei fawredd ac addolodd Anna Dduw o'i blegid ef. Tystiodd Iesu, ac yntau'n laslanc deuddeg oed, at 'reidrydd' ei ddyfodiad. Yn ei fedydd datganodd y Tad ei fodlonrwydd yn y Mab a chlywyd yng ngeiriau'r temtiwr ddatganiad mai Mab Duw yw Iesu.

Yn Nasareth, ar ddechrau ei efengyl, gwelwn Luc yn dangos i'w ddarllenwyr fod Iesu'n cyflawni *disgwyliad yr Ysgrhythurau Iddewig* (gweler hefyd 24:25-7; 24:32; 24:44 ymlaen).

Roedd awduron y Testament Newydd (1 Pedr 1:10-13; 2 Pedr 1:19-21) yn argyhoeddedig fod yr Ysgrhythurau Iddewig (Hen Destament yn ein hieithwedd ni) o ddwyfol darddiad, wedi eu hysbrydoli gan Dduw. Gallwn ddychmygu felly'r syfrdandod yn Nasareth pan glywsant eiriau Iesu'n datgan, 'Heddiw yn eich clyw chi mae'r Ysgrhythur hon wedi ei chyflawni.' (Luc 4:21)

Darllenwyd y bore hwnnw o Eseaia 61 a chyfunodd Iesu gymal o Eseaia 58:6 at ei faniffesto. Byddai'r hwn a gyflawnai'r broffwydoliaeth wedi ei eneinio gan

'Ysbryd yr Arglwydd'. Byddai'n cael ei anfon gydag awdurdod i gyhoeddi newyddion da. Sylwn pa mor ganolog oedd y gair, y neges, y datganiad neu'r cyhoeddiad o'r newyddion da.

Byddai'r eneinio hwn, meddai, yn 'pregethu'r Newydd da', yn 'cyhoeddi rhyddhad i garcharorion', ac yn 'cyhoeddi ffafr yr Arglwydd'. Adlais o hyn (ar ei orau) yw'r hyn a geir ym mhregethiad gair Duw o wythnos i wythnos. Gall pob Cristion dystio yn ei brofiad i effeithiolrwydd y Gair: ei allu i argyhoeddi, i fywhau, i ryddhau, i gryfhau ac i sicrhau'r crediniwr gwannaf fod ffafr yr Arglwydd yn agos atynt.

Gair yw hwn i'r anghenus (Luc 1:51-3). Mae'r gair a gyfieithir fel 'tlodion' yn air sy'n wreiddiol yn cyfeirio at rywun yn ei gwrcwd. Dacw gardotyng yn begera; dacw rywun yn swatio, wedi ei drechu a'i glwyfo ar faes y gad. Dacw un yn crymu mewn ofn neu dan bwysau amgylchiadau. Cardotwyr ydynt, tlodion heb hawliau, heb oibaith, a heb allu i newid eu hamgylchiadau. Awgryma un esboniwr fod y darlun yn cynnwys pobl sydd wedi eu darostwng gan dlodi ariannol, neu wedi eu dirmygu ar sail eu rhyw, yn bobl heb addysg, yn bobl sy'n dioddef salwch neu sydd dan anfantais gorfforol, yn bobl sy'n cywilyddio oherwydd anfoesoldeb. Beth bynnag fo'r achos, pobl sydd wedi eu darostwng ydynt.

I gaethion ac i garcharorion; i ddeillion; i'r rhai dan ormes o bob math, yn ôl Gair Duw, drwy Eseaia, fe ddeuai un o benodiad Duw i gyhoeddi rhyddid, adferiad, rhyddhad a gobaith.

Neges Iesu i'w wrandawyr cyntaf, ac i ninnau heddiw, yw hyn: 'Heddiw yn eich clyw chi y mae'r Ysgrhythur hon wedi ei chyflawni.'

Gweddi

Duw, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, diolchwn i ti y daethost i'n plith yn dy Fab Iesu Grist. Ynddo ef, yr Eneiniog, datguddiwyd rhyw ddirgelion rhy ddyrys i ddyn, na allai neb eu datrys ond Duwdod mawr ei hun. Daethost i'n hadfer, i'n rhyddhau, i oleuo, i beri i air o wirionedd oleuo garcharorion caeth, a'n rhyddhau o ormes ein gwrthryfel. Arglwydd, cyflawna dy waith ynom. Cyflawna dy waith drwom, drwy dy Ysbryd Glân. Amen.

Emyn 539 'Ai gwir y gair fod elw i mi'

RWJ

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)